Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# The Potteries

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.wales

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.wales

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© **Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 08/12/2015**

## Cyd-destun

Agorodd ysgol The Potteries ym mis Tachwedd 2012. Mae'r ystafell ddosbarth mewn tŷ mawr yn Aber-miwl, ger y Drenewydd, sydd hefyd yn gartref plant. Mae'r cartref plant wedi'i gofrestru gydag AGGCC ar gyfer hyd at bedwar o bobl ifanc 10 i 18 oed. Mae'r perchennog, CareTech UK, yn gwmni cyfyngedig, sy'n berchen ar gartrefi plant ar draws Cymru a Lloegr. Sefydlwyd The Potteries fel canolfan dderbyn ac asesu. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn mynychu rhaglen 26 wythnos, sy'n cynnwys 16 wythnos o asesu, cyn symud ymlaen i leoliadau eraill. Gall pobl ifanc gael eu gosod yno gan awdurdodau lleol o Gymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae'r holl bobl ifanc o Loegr. Mae'r ysgol yn darparu addysg amser llawn, gan gynnwys pynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chymwysterau fel dyfarniadau ASDAN a'r AQA. Gall dysgwyr sefyll arholiadau TGAU mewn ysgol arall sy'n rhan o'r cwmni.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae'r pennaeth wedi dechrau casglu a defnyddio ystod eang o ddata i lywio adroddiadau blynyddol ac adroddiadau hunanarfarnu; mae hyn yn cynnwys data ar bresenoldeb, asesiadau cychwynnol, canlyniadau arholiadau, gwaharddiadau ac ymyrraeth gorfforol
- Mae'r perchennog wedi gwella'i her a'i gymorth i'r pennaeth trwy gyflogi pennaeth addysg
- Mae disgyblion sy'n aml wedi colli sawl blwyddyn o ysgol cyn ymuno â The Potteries yn magu brwdfrydedd tuag at ddysgu
- Mae ansawdd yr addysgu yn dda
- Mae disgyblion yn dysgu mewn amgylchedd croesawgar a deniadol
- Mae'r system wobrau yn gweithio'n dda ac mae ymddygiad disgyblion yn dda

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Mae'r holl ddisgyblion yn dechrau ymddiddori mewn addysg, yn aml o waelodlin isel iawn, er bod y gyfradd bresenoldeb gyffredinol, sef 68%, yn rhy isel
- Mae'r perchennog wedi rhoi rhaglen ddefnyddiol o arsylwadau gwersi a goruchwyliaeth ar gyfer y pennaeth ar waith, er bod hyn yn ddatblygiad diweddar ac nid yw staff eraill a darparwyr allanol yn cael eu harsylwi
- Caiff disgyblion ddwy sesiwn ar addysg rhyw a pherthynas gyda'r nyrs ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, ond os bydd disgyblion yn colli'r sesiynau hyn, ni allant gwblhau'r gwaith pwysig hwn yn yr ystafell ddosbarth; nid oes rhaglen strwythuredig yng nghwricwlwm yr ysgol ar addysg rhyw a pherthynas
- Mae'r ysgol yn cael anhawster llunio cysylltiadau â'r coleg addysg bellach (AB) lleol oherwydd problemau'n ymwneud â goruchwylio'u disgyblion yng ngwersi'r coleg AB

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Wella presenoldeb disgyblion ymhellach

A2 Gwneud yn siŵr bod pob disgybl yn cael addysg rhyw a pherthynas

A3 Ymestyn y cyfleoedd addysgol i ddisgyblion ôl-16

A4 Gwella hunanarfarnu fel ei fod yn cynnwys adborth gan bob rhanddeiliaid ac yn canolbwyntio'n fwy ar ddeilliannau

A5 Cyflwyno prosesau sicrhau ansawdd ar draws pob darparwr gweithgareddau addysgol

## Cynnydd o ran mynd i'r afael ag argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

### Argymhelliad 1: Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn defnyddio tystiolaeth gan ystod eang o randdeiliaid

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r pennaeth wedi gwneud defnydd da o lawlyfr hunanarfarnu Estyn ar gyfer ysgolion annibynnol i lywio'i waith ar hunanarfarnu. Fodd bynnag, ni wneir digon o ddefnydd o farn disgyblion, rhieni, gweithwyr cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill i lywio'r adroddiad. Nid yw'r adroddiad yn canolbwyntio'n ddigon ar ddeilliannau.

Mae'r pennaeth yn casglu ac yn defnyddio ystod eang o ddata i gwblhau adroddiad blynyddol cynhwysfawr ar berfformiad yr ysgol. Mae'r adroddiad hwn yn arfarnu pa mor dda y mae disgyblion wedi ailymgysylltu ag addysg ac mae'n cysylltu'n dda â'r adran ar safonau yn adroddiad hunanarfarnu'r ysgol.

Gall yr ysgol ddangos bod disgyblion wedi gwella'u cyrhaeddiad mewn Saesneg a mathemateg yn ystod eu cyfnod yn The Potteries.

### Argymhelliad 2: Sicrhau bod arsylwadau gwersi wedi'u cynnwys yn y broses hunanarfarnu a nodi targedau ar gyfer datblygu staff a deilliannau gwell i ddisgyblion

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Yn ddiweddar, mae'r perchennog wedi penodi Pennaeth Addysg newydd i fod yn rheolwr llinell ar gyfer gwaith y pennaeth. Ym Medi 2015, cyflwynodd raglen o arsylwadau gwersi sy'n cynnwys adborth ysgrifenedig clir i'r pennaeth, yn amlinellu cryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw ansawdd sesiynau sy'n cael eu rheoli gan staff eraill a darparwyr allanol yn cael ei sicrhau. Megis dechrau y mae sicrhau ansawdd ac mae'n rhy gynnar eto i farnu ei effaith.

### Argymhelliad 3: Sicrhau bod y perchennog yn cefnogi'r ysgol fel ffrind beirniadol ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r perchennog wedi gwella ansawdd y cymorth a'r her a ddarperir i'r ysgol. Y tymor diwethaf, cyflogwyd ymgynghorydd allanol i nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol. Bellach, caiff ei gyflogi ar sail amser llawn. Ei rôl yw sicrhau cynnydd a gwelliant ar draws ysgolion CareTech. Mae'n cyflwyno fframwaith sicrhau ansawdd newydd ar gyfer addysg ar draws y cwmni. Mae hyn yn cynnwys rheoli perfformiad, goruchwylio rheolaidd ac adolygiad blynyddol o berfformiad ar gyfer pob arweinydd ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | The Potteries |
| **Rhif yr ysgol** | 6666051 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 05/10/2015 |
| **Perchennog** | CareTech UK |
| **Staff** | 1 rheolwr amser llawn<br>28 gweithiwr gofal preswyl amser llawn a rhan-amser |
| **Nifer y disgyblion** | 3 |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth dydd i ddisgyblion sy'n byw yng nghartref plant y cwmni. |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Dd/B |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 01/10/2014 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 17/07/2015 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Claire Yardley | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Jassa Scott | Arolygydd Tîm |